




TAITH PYLLAU  
GLO CYMRU  
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA  
A WELSH COAL  
MINING EXPERIENCE  
RHONDDA HERITAGE PARK

## GWRTHRYCHAU CARTREF OES FICTORIA VICTORIAN HOUSEHOLD ARTEFACTS



### Ystyllen Olchi, Gefail a Brwsh Sgwrio

Cyn i beiriannau golchi dillad gael eu creu, roedd rhaid golchi dillad â llaw; roedd hyn yn dasg anodd iawn. Cafodd y dasg yma'i chyflawni gan wraig y tŷ (y fam, y wraig, y ferch) neu, mewn aelwydydd mwy cyfoethog, byddai gwas y tŷ yn cyflawni'r dasg. Cafodd dillad eu golchi gan ddefnyddio twb mawr o ddŵr poeth; roedd y gefeiliau'n eich helpu chi i osgoi cael eich llosgi. Cafodd y dillad gwlyb eu rhwbio, gyda sebon, i fyny ac i lawr yr ystyllen golchi. Cafodd y brwsh ei ddefnyddio i gael gwared ar staenau.

### Washboard, Tongs and Scrubbing Brush

Before washing machines, clothes had to be washed by hand; a very strenuous activity. This was done by the lady of the house (mother, wife, daughter) or, in richer households by a domestic servant. Clothes were washed in a large tub of hot water; the tongs helped avoid burns. The wet clothes were rubbed, along with soap, up and down the washboard. The brush was used to help remove tougher stains.



### Peg Dillad Doli

Yn wahanol i'r pegiau dillad plastig sy'n cael eu defnyddio heddiw, roedd pegiau Oes Fictoria llawer yn fwy ac wedi'u cerfio o un darn o bren. Roedd rhaid i'r pegiau fod yn fwy oherwydd roedd dillad yn llawer mwy trwm; gan eu bod nhw wedi'u creu o gotwm a lliain. Cafodd dillad a oedd wedi cael eu golchi eu hongian ar linell dillad a'u gosod rhwng y rhaniad yn y peg.

### Dolly Clothes Peg

Unlike the small plastic clothes pegs that are commonly used today, Victorian pegs were much larger and carved from a single piece of wood. The pegs needed to be bigger because clothes were a lot heavier; made out of cotton and linen. Washed clothes were hung over a washing line and secured between the split in the peg.



### Sebon Coch

Cafodd Sebon Coch ei ddefnyddio gan bawb yn ystod y 19eg ganrif. Roedd pobl dlawd a chyfoethog yn defnyddio Sebon Coch i olchi dillad, glanhau potiau dan y gwely a'u corff.

Mae'r enw yn deillio o'r asid carbolic sydd yn y sebon. Mae gan yr asid briodoleddau diheintiol a gafodd eu defnyddio gan Syr Joseph Lister (1827 - 1912) yn rhan o'i dechneg arloesol ar gyfer llawfeddygaeth gwrth-heintiol. Oherwydd yr asid sydd yn y sebon, doedd y sebon ddim yn dda i'r croen a dydy'r sebon ddim yn cael ei ddefnyddio erbyn heddiw.

**Paid â phoeni! Mae'r sebon yn ddiogel ac mae modd i ddwylo bach gyffwrdd â'r sebon! Edrycha ar y daflen Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd cyn ei drin.**

### Carbolic Soap

Carbolic soap was used by everyone in the 19th century. Both rich and poor used carbolic soap to wash clothes, clean chamber pots and their body.

The soap got its name from the carbolic acid that is present in the soap. The acid has strong disinfectant properties which were used by Sir Joseph Lister (1827–1912) in his pioneering technique of antiseptic surgery. Due to the acid that is inside the soap it was not very good for the skin and is no longer used today.

**Do not worry! The soap is still safe for little hands to touch! Please look at the COSHH sheet before handling.**



TAITH PYLLAU  
GLO CYMRU  
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA  
A WELSH COAL  
MINING EXPERIENCE  
RHONDDA HERITAGE PARK

## GWRTHRYCHAU CARTREF OES FICTORIA VICTORIAN HOUSEHOLD ARTEFACTS

### Haearn Smwddio Fflat a Haearn Bocs



Cafodd dau fath o haearn eu cyflwyno yn ystod Oes Fictoria; yr haearn smwddio fflat a'r haearn bocs. Darn solet o haearn a gafodd ei gynhesu drwy ei roi ar y grât oedd yr haearn smwddio fflat. Cafodd yr haearn bocs ei greu o haearn hefyd, ond roedd yn wag y tu mewn. Roedd y tu mewn yn gartref i'r slyg (darn arall o haearn) a gafodd ei wresogi ar y ffwrn ac yna'i osod y tu mewn i'r haearn. Yn aml, byddai dau slyg yn cael eu defnyddio fel bod modd cynhesu un tra bod y llall yn cael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn gwneud smwddio'n fwy effeithlon.



Yn aml, byddai un diwrnod yn ystod yr wythnos yn cael ei neilltuo er mwyn cwblhau'r gwaith smwddio. Roedd pwysau'r haearn yn golygu bod hyn yn waith llafurus a blinedig.

### Curwr Carpedi



Roedd carpedi yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn dilyn cyflwyno masgynhyrchu ym Mhrydain. Mewn cyfnod cyn y sugnwyr llwch, byddai wedi cael ei gymryd y tu allan a'i guro gyda churwr carped. Roedd y dasg yn flinderus ac yn annymunol. Oherwydd yr holl danau glo yn y cymoedd, byddai'r menywod a oedd yn curo'r carped wedi'u gorchuddio â chwmwl o lwch du.

### Cynheswr Gwely



Heb system gwres canolog, byddai'r tai yn oer. Roedd cynheswr gwely yn eitem hanfodol mewn cartref yr Oes Fictoria. Byddai'r badell (y rhan gron) wedi cael ei llenwi â glo neu lwch o'r tân ac yna'i gosod ar y gwely. Cafodd y ddolen hir ei defnyddio i gario'r badell yn hawdd heb gael dy losgi, ond cafodd ei defnyddio i symud y badell o gwmpas y gwely. Byddai hyn yn cael gwared ar unrhyw leithder a chynhesu'r gwely ar gyfer yr unigolyn.

Fel arfer, cafodd y cynheswr gwely ei greu o gopr, sy'n golygu ei fod yn ysgafn. Roedd hyn yn bwysig gan y byddai nifer o bobl wedi gorfod cario'r cynheswr gwely i fyny'r grisiau gyda'r llwch poeth y tu mewn iddo, a byddai hyn wedi ychwanegu at y pwysau.

### Flat Iron and Box Iron

The Victorian period saw the introduction of two types of irons; the flat iron and the box iron. The flat iron was a solid piece of iron that was heated by placing it on the range. The box iron was also made out of iron but was hollow on the inside. The inside was home to the slug (another piece of iron) which, was heated on the kitchen range then placed inside the iron. Usually two slugs would be used so that one could be heating up while the other was in the iron. This made ironing more efficient.

Often, one day of the week would have been dedicated entirely to ironing. The weight of the iron would have meant that this was very strenuous and exhausting work.

### Carpet Beater

Carpets became increasingly popular due to the introduction of mass production in Britain. Without the luxury of a vacuum cleaner carpets would have been swept or taken outside and beaten with a carpet beater. The job was tiring and unpleasant. With all the coal fires in the valleys the women beating the carpet would have been covered in a cloud of black dust.

### Bed Warmer

Without central heating houses could be cold, a bed warmer was an essential item in the Victorian house. The pan (the circle part) would have been filled with coal or ashes from the fire and then placed into the bed. The long handle was used to carry the pan easily without being burnt, but was also used to move the pan around the bed. This would get rid of any damp and warm the bed ready for its occupier.

The bed warmer was usually made of copper, making it light. This was important as many would have had to carry it up stairs with hot ashes inside which, would have added weight.



TAITH PYLLAU  
GLO CYMRU  
PARC TREFTAETH CWM RHONDDA  
A WELSH COAL  
MINING EXPERIENCE  
RHONDDA HERITAGE PARK

## GWRTHRYCHAU CARTREF OES VICTORIA VICTORIAN HOUSEHOLD ARTEFACTS



### Potel Dŵr Poeth

Mae'r Botel Dŵr Poeth yma'n wahanol iawn i'r rheiny sy'n cael eu defnyddio heddiw. Mae'r botel wedi'i chreu o seramig, nid rwber. Roedd hyn yn ddatblygiad ar y Cynheswr Gwely, ac roedd modd ei chario y tu allan i'r tŷ oherwydd ei bod hi'n fach. Roedd yn boblogaidd ar fysiau a threnau i wresogi'r dwylo neu'r traed, gan wneud y daith yn un a oedd yn fwy cyfforddus.

Roedd y botel wedi'i llenwi â dŵr poeth a gafodd ei gynhesu ar y ffwrn yn y cartref. Ar ôl iddi gael ei llenwi, byddai'r caead yn cael ei sgriwio ac felly'n ei hatal rhag gollwng dŵr.

### Hot Water Bottle

This hot water bottle is very different to those that we use today. The bottle is not made of rubber but, ceramic. A development on the bed warmer, it could now be carried outside of the house due to its small structure. Its use was popular on coaches and trains to warm hands or feet, making a more comfortable journey.

It was filled with hot water that was warmed on the range at home. Once filled, a lid would be screwed on which prevented it from leaking.



### Pot Dan y Gwely

Cyn tai bach yn y tŷ, cafodd pot dan y gwely ei gadw o dan y gwely ar gyfer pob aelod o'r teulu. Byddai hyn yn golygu nad oedd angen i ti fynd i'r tŷ bach y tu fas yn ystod y nos. Yn y bore, roedd rhaid gwagio'r pot mewn bwced ai lanhau â sebon coch.

Byddai'r Pot Dan y Gwely wedi cael ei greu o lestri neu enamel, fel yr un sydd yn y blwch. Roedd gan rai batrymau addurnol neu flodau wedi'u paentio arny'n nhw hyd yn oed

### Chamber Pot

Before there were indoor toilets a chamber pot was kept under the bed of every family member. It would save you from going outside to the toilet during the night. In the morning the pot had to be emptied into a bucket and cleaned with carbolic soap.

The chamber pot would have been made from china or enamel like the one in the box. Some even had decorative patterns of flowers painted onto them.



### Tegell

Roedd unrhyw ddŵr poeth oedd ei angen yn y cartref, er enghraifft ar gyfer diodydd poeth, golchi neu lanhau, yn cael ei gynhesu mewn tegell ar y ffwrn. Roedd y tecellau a oedd yn cael eu defnyddio fel arfer yn eithaf mawr ac yn cadw'n gynnes ar drybedd ar bwys y ffwrn. Mewn cartrefi tlawd, cafodd y tecellau eu creu o haearn bwrw neu enamel. Mewn cartrefi cyfoethog, cafodd y tecellau eu creu o gopr. Byddai'r ddolen fetel yn boeth iawn ar ôl iddi gael ei chynhesu ac roedd angen lliain i'w chodi.

### Kettle

Any hot water that was needed in the household, for hot drinks, washing or cleaning, was heated on the range in a kettle. The kettles used were usually quite big and kept warm on a trivet next to the range. In poor households the kettles were made from cast-iron or enamel. In rich households they were made from copper. When heated the metal handle would become very hot and a cloth was needed to lift it.



TAITH PYLLAU  
GLO CYMRU  
PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA  
A WELSH COAL  
MINING EXPERIENCE  
RHONDDA HERITAGE PARK

## GWRTHRYCHAU CARTREF OES FICTORIA VICTORIAN HOUSEHOLD ARTEFACTS



### Dillad Oes Fictoria - Menywod

Roedd angen dillad a oedd yn eu galluogi nhw i symud yn hawdd ac yn para amser hir ar fenywod y dosbarth gweithiol. Roedd nifer o fenywod yn cyflawni tasgau anodd yn y cartref felly yn dewis lliwiau tywyll fel na fyddai'r dillad yn ymddangos yn frwnt mor hawdd.

Roedd menywod yn aml yn gwisgo pinaffor gwyn oherwydd roedd yn haws i'w lanhau ac yn ddigon rhad i brynu un newydd. Roedd hefyd yn sicrhau eu bod nhw'n ymddangos yn lân.

### Victorian Clothing - Ladies

Working class women needed clothes that enabled them to move easily and lasted a long time. With many women taking up strenuous household activities they opted for dark colours so that dirt would not show up so easily.

A white pinafore was often worn as this was easier to clean, cheap to replace and gave the appearance of cleanliness.



### Dillad Oes Fictoria - Dynion

Roedd holl ddynion Oes Fictoria'n gwisgo'n daclus; beth bynnag eu cyfoeth. Roedd pobl Oes Fictoria'n credu y byddai eu golwg yn llywio barn eraill amdany'n nhw a'u teuluoedd.

Y wisg 'arferol' ar gyfer dyn o'r dosbarth gweithiol oedd crys, gwasgod a siaced. Yn aml, byddai'r dillad yma'n cael eu trwsio â chlytiau ar ôl cael eu gwisgo am sbel.

### Victorian Clothing - Men

All Victorian men dressed smartly; regardless of wealth. Victorians believed that their appearance would shape peoples opinions about them and their family.

The 'typical' uniform for a working class gentleman would be a shirt, waistcoat and jacket. As clothes became worn these would often be mended with patches.



### Dillad Oes Fictoria - Plant

Nid yr oedolion yn unig oedd yn ymfalchïo yn y ffordd roedden nhw'n edrych. Roedd gan bob plentyn set o 'ddillad gorau' ar gyfer eu gwisgo i'r eglwys/capel ac ar gyfer achlysuron arbennig. Yn aml, roedd dillad dydd i ddydd plant dosbarth gweithiol yn cael eu trosglwyddo gan frodyr a chworydd hŷn ac yn cael eu trwsio yn hytrach na'u prynu'n newydd.

### Victorian Clothing - Children

Pride in ones appearance didn't just stop with adults. All children owned a set of clothes for 'Sunday best' worn to church or on special occasions. Day to day clothing for working class children was often passed down from older siblings being fixed and patched whenever possible rather than buying new.